# Cronfa Môr a Physgodfeydd

# Iechyd a Diogelwch

*Ffurflen Gais-  Canllawiau Sut i Lenwi*

# Cynnwys


Gwybodaeth....3

Cofrestru....3

RPW Ar-lein: Mewngofnodi....4

RPW Ar-lein: Hafan....6

Tudalen Ffurflenni....6

Cais Iechyd a Diogelwch (Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru): Dechrau Cais....9

Parhau I Wneud Cais/Dechrau Eto....10

Cyflwyniad....11

Hysbysiad Preifatrwydd....13

Cymhwysedd....14

Manylion eich Cwch....17

Cymhwysedd: Wedi'i gwblhau....18

Dewis Eitemau....19

Eitemau a Ddewiswyd....20

Manylion Eraill....22

Tudalen Gyflwyno: Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb....23

Cyflwyno: Datganiadau ac Ymrwymiadau....24

Tudalen Gyflwyno: Cyflwyno....24

Cyflwyno'r Dogfennau....26

Cyflwyno Dogfennau: Negeseuon....26

Ar ôl cyflwyno cais yn llwyddiannus....30

Beth sy'n digwydd nesaf?....30



Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2023
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru


Hawlfraint y Goron © 2023


ISBN: 978-1-83504-233-5

## Gwybodaeth

Bydd y cyfarwyddiadau hyn yn rhoi help gam wrth gam i chi i lenwi eich ffurflen gais Iechyd a Diogelwch (Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru).

Mae Llywodraeth Cymru yn llunio'r canllawiau yma yn Gymraeg ac yn Saesneg fel sy'n ofynnol o dan Gynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru.

Os ydych yn dod ar draws problemau neu'n methu â gweld ein gwefan, cysylltwch â Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

## Cofrestru

Er mwyn gwneud cais ar gyfer rownd Iechyd a Diogelwch (Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru), rhaid i chi yn gyntaf gofrestru cyfrif ar Borth y Llywodraeth ac ar Daliadau Gwledig Cymru Ar-lein (RPW Ar-lein).
Ceir Canllawiau ar sut i gofrestru yn y nodiadau o'r enw 'RPW Ar-lein: Sut i Gofrestru' (https://www.llyw.cymru/rpw-ar-lein-sut-i-gofrestru). Ceir Canllawiau ar sut i agor eich cyfrif RPW ar-lein yn y nodiadau o'r enw 'RPW Ar-lein: Dechrau arni' (https://www.llyw.cymru/rpw-ar-lein-dechrau-arni).


**Noder:** Dilynwch y cyfarwyddiadau uchod yn ofalus. Pan fyddwch yn creu eich cyfrif RPW Ar-lein, rhaid ichi ddewis 'Cwsmer' ar gyfer eich math o gyfrif, ac wedyn dewis, rwy'n bwriadu ymgeisio am grantiau neu wneud hawliadau' neu ' rwy'n bwriadu ymgeisio neu hawlio a rheoli fy CPH. Wedyn gofynnir ichi cwblhau rhagor o fanylion. Bydd methu â dewis un o'r opsiynau hyn yn eich atal rhag hawlio os yw eich cais Iechyd a Diogelwch (Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru) yn llwyddiannus.

Ni fydd yn bosibl dilyn y camau yn y canllawiau hyn cyn ichi greu cyfrif Porth y Llywodraeth a chyfrif RPW Ar-lein.

Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2023
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2023
ISBN: 978-1-83504-233-5

## RPW Ar-lein: Mewngofnodi


I fewngofnodi i'ch Cyfrif Ar-lein RPW, nodwch eich Rhif Adnabod Defnyddiwr a'ch Cyfrinair yn y blychau a chliciwch ar y botwm 'Mewngofnodi'.




Os ydych chi'n cael problemau neu os ydych chi'n methu agor eich cyfrif ar-lein, cysylltwch â Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

Ar ôl i chi fewngofnodi yn eich cyfrif ar-lein, bydd 'Tudalen Hafan' RPW Ar-lein yn ymddangos.

Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2023
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2023
ISBN: 978-1-83504-233-5


Taliadau Gwledig Cymru
RPW Ar-Lein Online
Rural Payments Wales

CRONFA AMAETHYDDOL EWROP AR GYFER DATBLYGU GWLEDIG: EWROP YN BUDDSODDI MEWN ARDALOEDD GWLEDIG
THE EUROPEAN AGRICULTURAL FUND FOR RURAL DEVELOPMENT: EUROPE INVESTING IN RURAL AREAS

CRN:

English Allgofnodi

Hafan | Fy Manylion | Tir | Gohebiaeth 193 | Ffurflenni | Contractau a Grantiau Bach

**Ar ol i chi orffen eich sesiwn ar-lein, sicrhewch eich bod wedi allgofnodi a chau'r porwr.**

**Wrth lenwi ceisiadau, gofalwch beidio a phwyso botwm yn ol eich porwr.**

## Negeseuon Rhyngoch chi ag RPW

Heb ei ddarllen **Datganiad Talu / Payment Statement**
Datganiad Talu : E_Glastir Advanced CW

Heb ei ddarllen **Dogfennau wedi dod i law Taliadau Gwledig Cymru / Documents received by RPW**
Crynodeb Ffurflen Hawlio Grant : Grant Claim Form

**Dogfennau wedi dod i law Taliadau Gwledig Cymru / Documents received by RPW**
Grantiau Bach - Crynodeb o'r Datganiad o Ddiddordeb - Dechrau Busnes Garddwriaeth : Small Grants - Horticulture Start Up Expression of Interest

Heb ei ddarllen **Dogfennau wedi dod i law Taliadau Gwledig Cymru / Documents received by RPW**
Crynodeb o Gais ar gyfer y Cynllun Sbarduno Busnesau Bwyd : Food Business Accelerator Scheme Application

Gweld yr holl negeseuon

### Dechrau ffurflen

Ffurflen Cais Sengl 2023 Ar gael hyd at

Ail-werthusiad Newid Prosiect

Amrywiad i Gontract FCERM Ar gael unrhyw bryd

Apêl Ar gael unrhyw bryd

Cais Gwerth Ychwanegol (Pysgodfeydd) Ar gael hyd at

Cais ar gyfer y Cynllun Sbarduno Busnesau Bwyd

Cais i Newid Prosiect Ar gael unrhyw bryd

Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig - Cais am Grant Datblygu Ar gael hyd at diwrnod ar ôl.

Rydych wedi dechrau'ch SAF 2023 ond heb ei chyflwyno eto.
Diweddarwyd ddiwethaf ar 17/02/2023 am 04:44 gan Charlies Estate Agent

**Nodyn Atgoffa SAF: Y dyddiad cau ar gyfer anfon eich SAF heb gael cosb am ei hanfon yn hwyr yw 15 Mai 2023. Felly dim ond 48 diwrnod sydd gennych ar ôl i gyflwyno'ch SAF.**

Parhau â SAF 2023


### Dolenni defnyddiol

BCMS
Ffermio a gwybodaeth cynllun
TB mewn gwartheg
Symud ac adnabod anifeiliaid fferm
Cyswllt Ffermio
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop
EID Cymru

Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2023
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2023
ISBN: 978-1-83504-233-5

## RPW Ar-lein: Hafan

I agor y cais Iechyd a Diogelwch (Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru), cliciwch ar y tab ‘Ffurflenni’ ar sgrin hafan RPW Ar-lein, fel y gwelir isod.





Bydd hyn yn mynd â chi drwodd i'r dudalen ‘Ffurflenni’.


I newid yr iaith unrhyw bryd, cliciwch ar y botwm Cymraeg / English sydd ar y bar yn gongl uchaf ar y dde yng ngwybodaeth RPW Ar-lein. Byddwch chi'n gallu dewis yr iaith y mae eich cais yn ymddangos ynddi.

### Tudalen Ffurflenni

Ar ôl i chi ddewis y tab ‘Ffurflenni’, byddwch chi'n gweld y Ceisiadau a’r Hawliadau sydd ar gael i chi eu llenwi.


Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2023
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2023
ISBN: 978-1-83504-233-5




Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2023
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2023
ISBN: 978-1-83504-233-5

Mae'r Ffurflen hefyd ar gael yn yr adran 'Dechrau Ffurflen' ar waelod y sgrin 'Hafan', cliciwch enw’r cynllun perthnasol y dymunwch wneud cais amdano. Bydd y ffurflen gais Iechyd a Diogelwch (Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru) ar gael yma tan ddyddiad cau'r ffenest.


Gweld yr holl negeseuon

Dechrau ffurflen

Ffurflen Cais Sengl 2023

Ail-werthusiad Newid Prosiect

Amrywiad i Gontract FCERM Ar gael unrhyw bryd

Apêl Ar gael unrhyw bryd

Cais Cynllun Arallgyfeirio Amaethyddol

Cais Gwerth Ychwanegol (Pysgodfeydd) Ar gael hyd at

Cais i Newid Prosiect Ar gael unrhyw bryd

Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau – Datganiad o Ddiddordeb Ar gael hyd at

DOD Cynllun Cynllunio Creu Coetir Ar gael hyd at

Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer Cynllun Cynefinoedd Cymru Ar gael unrhyw bryd

Datganiad o Ddiddordeb – Troi’n Organig Ar gael hyd at

Ffurflen Cynllun Datblygu Garddwriaeth Ar gael hyd at

Ffurflen Hawlio Grant

Grant Busnes i Ffermydd - EOI Cynllun Gorchuddio Iardiau Ar gael hyd at

Grant Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol – Cais Cyfalaf Ar gael hyd at

Grantiau Bach - Amgylchedd Datganiad o Ddiddordeb Ar gael hyd at

Grantiau Bach - Creu Coetir Ar gael hyd at

Grantiau Bach - Datgan Diddordeb - Dechrau Busnes Garddwriaeth Ar gael hyd at

Grantiau Bach - Effeithlonrwydd - Datganiad o Ddiddordeb Ar gael hyd at

Grantiau Bach - Gorchuddio Iardiau - Datganiad o Ddiddordeb Ar gael hyd at

Grantiau Bach – Dechrau Busnes Garddwriaeth, Cais Llawn Ar gael hyd at

Hawlio Gwaith Cyfalaf

Iechyd a Diogelwch (Cynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru) Ar gael hyd at


Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2023
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2023
ISBN: 978-1-83504-233-5

## Cais Iechyd a Diogelwch (Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru): Dechrau Cais

Darllenwch Nodiadau Cyfarwyddyd ar gyfer Iechyd a Diogelwch (Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru) cyn dechrau ar gais.

https://www.llyw.cymru/iechyd-diogelwch-cynllun-y-mor-physgodfeydd-cymru-canllawiau

Dechreuwch ar eich cais drwy glicio ar y botwm 'Dechrau'.




Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2023
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2023
ISBN: 978-1-83504-233-5

## Parhau I Wneud Cais/Dechrau Eto

Ar ôl i chi ddechrau eich cais, mae gennych yr opsiwn i'w adael a dychwelyd ato eto. Os ydych chi'n cyrchu cais rydych chi wedi dechrau arno'n barod, yna byddwch yn gallu Parhau (botwm glas ar waelod y sgrin), neu Dechrau Eto drwy glicio ar y ddolen a ddangosir ar y sgrin hon:


Taliadau Gwledig Cymru Ar-Lein Online Rural Payments Wales

CRONFA AMAETHYDDOL EWROP AR GYFER DATBLYGU GWLEDIG: EWROP YN BUDDSODDI MEWN ARDALOEDD GWLEDIG
THE EUROPEAN AGRICULTURAL FUND FOR RURAL DEVELOPMENT: EUROPE INVESTING IN RURAL AREAS

CRN:  English Allgofnodi

Hafan | Fy Manylion | Tir | Gohebiaeth 1 | Ffurflenni | Contractau a Grantiau Bach | Cynlluniau Coetir

**Parhau â Chais** parhau â chais neu hawliad

Rydych wedi gofyn am gael llenwi'r cais canlynol ar-lein: **Iechyd a Diogelwch (Cynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru).** Rydych wrthi'n gweithio ar eich ffurflen. Cliciwch ar 'Parhau' i symud ymlaen â **Iechyd a Diogelwch (Cynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru).**

Cewch ddewis dileu'ch **Iechyd a Diogelwch (Cynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru)** presennol a dechrau eto. Trwy wneud, byddwch yn dadwneud y newidiadau sydd wedi'u gwneud ers ichi ddechrau'ch **Iechyd a Diogelwch (Cynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru)** a llenwir y **Iechyd a Diogelwch (Cynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru)** newydd â'r data diweddaraf. Os ydych am wneud, cliciwch Dechrau Eto'.

Bydd RPW Ar-lein yn gofyn i chi am yr wybodaeth sydd ei hangen ar y ffurflen. Drwy ddechrau llenwi'r ffurflen ar-lein, nid ydych yn ymrwymo i'w chyflwyno ar-lein; gallwch adael y broses ar unrhyw adeg. Os ydych chi'n gadael y ffurflen, gallwch ddychwelyd yn ôl ati rywbryd arall i'w chwblhau. Bydd RPW Ar-lein wedi arbed yr wybodaeth y byddwch wedi'i nodi yn eich sesiwn flaenorol.

Ni fydd y ffurflen yn cael ei hanfon i Lywodraeth Cymru nes eich bod yn clicio ar 'Anfon' ar ddiwedd y broses. Unwaith eich bod wedi'i chyflwyno, ni fyddwch yn gallu gwneud newidiadau iddi gyda RPW Ar-lein.

Mae'n rhaid i chi anfon y ffurflen i Lywodraeth Cymru erbyn . Ni fyddwch yn gallu anfon eich ffurflen ar ôl y dyddiad hwn hyd yn oed os ydych chi wedi dechrau ei llenwi'r ffurflen

Os oes gennych chi broblemau yn llenwi **Iechyd a Diogelwch (Cynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru)** yna gallwch chi gysylltu â'r 'Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid' am ragor o gymorth.

Cofiwch wneud yn siŵr bod Manylion y Cwsmer a'r Dewisiadau Ar-lein a nodir isod yn gywir cyn anfon y ffurflen. Os ydyn nhw'n anghywir, gallwch eu newid nawr drwy glicio ar y dolenni Manylion y Cwsmer neu Dewisiadau Ar-lein isod.

Manylion y Cwsmer
Enw Masnachu
Cyfeiriad
Côd Post
Rhif Ffôn
Cyfeiriad e-bost
Nifer y Partneriaid

Dewisiadau Ar-lein
E-bost ynte neges destun (SMS)
Cyfeiriad e-bost
Rhif ffôn symudol


Parhau i weithio ar **Iechyd a Diogelwch (Cynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru)** a gafodd ei ddiweddaru ar 23/08/2023 am 10:24 gan Charlies Estate Agent

Parhau | Yn ôl

Byddwch yn ymwybodol - os ydych chi'n dewis Dechrau Eto, bydd hyn yn dad-osod yr holl gwestiynau rydych chi wedi'u hateb a dileu'r holl wybodaeth rydych chi wedi'i hychwanegu.

Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2023
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2023
ISBN: 978-1-83504-233-5

Os ydych yn siŵr eich bod yn dymuno Dechrau Eto, cliciwch Ydw neu os nad ydych cliciwch Na, fel y dangosir ar y sgrin hon:




## Cyflwyniad


Dyma dudalen y Cyflwyniad, sy'n rhoi gwybodaeth allweddol am y cynllun rydych chi'n gwneud cais amdano.

Mae dolen i'r canllaw Sut i Gwblhau hwn ar frig y sgrin hon ar y chwith, a fydd yn eich cyfeirio at y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru.

Ar y chwith mae'r gwahanol adrannau yn cael eu harddangos. Mae croes goch yn dangos eich bod naill ai heb gyrchu pob adran eto, neu fod gennych wallau ar yr adran(au). Bydd tic gwyrdd yn arddangos unwaith y byddwch wedi cwblhau pob adran ac nad oes unrhyw wallau i'w gweld. Ceir amryw o fotymau llywio ar frig a

Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2023
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2023
ISBN: 978-1-83504-233-5

gwaelod y ffurflen.  Hefyd os ydych am newid rhwng y Gymraeg a'r Saesneg mae botwm i wneud hynny ar waelod chwith y sgrin fel y dangosir yn y sgrin isod:





Cliciwch ar y botwm ‘Nesaf’ ar ôl i chi ddarllen yr wybodaeth.




Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2023
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2023
ISBN: 978-1-83504-233-5

## Hysbysiad Preifatrwydd

Dyma’r dudalen Hysbysiad Preifatrwydd, sy'n rhoi gwybodaeth am y modd y bydd Llywodraeth Cymru yn rheoli eich data.


Iechyd a Diogelwch (Cynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru)

Help

- Cyflwyniad
- Hysbysiad Preifatrwydd
- Cymhwysedd
- Dewiswch Eitemau
- Manylion Eraill
- Cyflwyno

Printio English

Hysbysiad Preifatrwydd

Yn ôl | Safio | Nesaf

Hysbysiad preifatrwydd: grantiau Llywodraeth Cymru

**Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud wrthych sut y byddwn yn ymdrin ag unrhyw ddata personol a ddarperir gennych mewn perthynas â'ch cais am grant neu gyllid.**

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu amrediad eang o gynlluniau grant er mwyn helpu i roi ein polisiau ar waith a chreu Cymru decach, fwy ffyniannus.

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a roddir gennych mewn perthynas â'ch cais am grant neu gyllid. Bydd yr wybodaeth yn cael ei phrosesu fel rhan o'n gorchwyl cyhoeddus (h.y. arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru) ac yn ein helpu i asesu a ydych yn gymwys i gael cyllid ac i weinyddu'r grant.

Cyn inni roi cyllid ichi, byddwn yn cynnal archwiliadau er mwyn atal twyll ac atal gwyngalchu arian, ac i wirio eich manylion adnabod. Fel rhan o'r archwiliadau hyn, mae'n ofynnol inni rannu data personol amdanoch chi ag asiantaethau atal twyll trydydd parti.

Os byddwn ni, neu asiantaeth atal twyll, yn penderfynu eich bod yn peri risg o ran twyll neu wyngalchu arian, gallwn wrthod darparu'r cyllid grant rydych wedi gwneud cais amdano, neu gallwn atal darparu'r cyllid rydych chi eisoes yn ei gael.

Bydd yr asiantaethau atal twyll yn cadw cofnod o unrhyw risg o dwyll neu wyngalchu arian, a gallai hyn arwain at bobl eraill yn gwrthod â darparu gwasanaethau, cyllid neu gyflogaeth i chi.

Er mwyn asesu cymhwyster, efallai y bydd angen inni hefyd rannu gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â'ch cais â'r canlynol.

- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
- Y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygon
- Awdurdodau Lleol Cymru
- Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
- DEFRA
- Y Sefydliad Rheoli Morol (MMO)
- Gweinyddiaethau Morol a Physgodfeydd eraill Llywodraeth y DU
- Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau
- Awdurdodau Rheoleiddio fel Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi, Awdurdodau Lleol, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Heddlu

Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi manylion derbynwyr grant, faint maent wedi'i dderbyn ac enw'r busnes ar gofestr dryloywder, lle mae'n ofynnol inni wneud hynny, er enghraifft o dan Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022.

Byddwn yn cadw gwybodaeth bersonol mewn ffeiliau yn unol â'n polisi cadw gwybodaeth. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn cadw eich data personol am saith mlynedd ar ôl y dyddiad pan fyddwch chi, fel derbynnydd y grant, yn rhydd rhag holl amodau'r grant, a bod pob taliad wedi'i wneud. Os na fydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn cadw eich manylion am flwyddyn ar ôl y dyddiad y gwnaethoch eu darparu.

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl wneud y canlynol:

- gweld y data personol rydym yn ei brosesu amdanoch chi;
- gofyn inni gywiro unrhyw wallau yn y data hwnnw;
- gwrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu data (o dan rai amgylchiadau);
- gofyn i'ch data gael ei 'ddileu' (o dan rai amgylchiadau);
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y datganiad preifatrwydd hwn, cysylltwch â Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW.

I gael mwy o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'r ffordd mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio, neu os ydych chi am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad GDPR, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ


Cliciwch ar y botwm ‘Nesaf’ ar ôl i chi ddarllen yr wybodaeth.




Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2023
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2023
ISBN: 978-1-83504-233-5


## Cymhwysedd

Dyma’r dudalen Cymhwysedd, sy'n cynnwys cwestiynau sy’n penderfynu a ydych chi'n gymwys ar gyfer y cynllun. Rhaid i chi ateb pob cwestiwn ar y dudalen hon.





Noder, os ydych yn dewis naill ai 'Trosiant ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiweddaraf' neu 'Gwerth ar fantolen ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiweddaraf' bydd gofyn ichi ddarparu tystiolaeth ategol. Gall y dystiolaeth hon fod ar ffurf llythyr gan gyfrifydd yn cadarnhau trosiant eich busnes neu falans y flwyddyn ariannol flaenorol, neu ffurflen dreth y flwyddyn dreth flaenorol sy'n dangos trosiant / balans.


Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2023
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2023
ISBN: 978-1-83504-233-5





Ar ôl ichi ddewis a yw eich menter yn y 'Sector Dalfa' neu'r 'Sector Dyframaethu' bydd cwestiynau ychwanegol yn ymddangos a bydd rhaid ichi eu hateb nhw hefyd.




Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2023
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2023
ISBN: 978-1-83504-233-5





Os ydych yn chwilio am gyllid ar gyfer buddsoddiadau ar fwrdd eich cwch ac nid ydych yn bysgotwr, rhaid ichi ddisgrifio a nodi hyd y cwch a chadarnhau os ydych yn berchennog llawn, yn rhan-berchennog neu'n gapten y cwch.




Mae rhai gwiriadau sylfaenol ar gywirdeb data yn y dudalen hon, a bydd unrhyw negeseuon am wallau neu wybodaeth yn ymddangos ar ôl i chi glicio ar ‘Safio’ neu ‘Nesaf’.


Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2023
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2023
ISBN: 978-1-83504-233-5



Os ydych chi'n gallu gweld neges gwall pan mae'r manylion yn gywir, cliciwch ar y botwm 'Safio' i ddiweddaru'r ffurflen a datrys unrhyw hen negeseuon gwall. Wrth fynd drwy'r ffurflen, mae'n syniad da i glicio ar y botwm 'Safio' ar ôl i chi lenwi'r holl gwestiynau ar y sgrin.

## Manylion eich Cwch

Os ydych wedi dewis 'Sector Dalfa' a 'Fi yw'r perchennog/rhan-berchennog neu gapten llong fasnachol drwyddedig' rhaid ichi nodi manylion pob cwch sy'n rhan o'ch prosiect. I wneud hynny, cliciwch ar y botwm 'Ychwanegu Cwch'.






Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2023
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru


Hawlfraint y Goron © 2023


ISBN: 978-1-83504-233-5


Drwy glicio ar ‘Ychwanegu Cwch’, byddwch chi’n mynd i'r sgrin ‘Manylion y Cychod’ lle gallwch chi roi gwybodaeth am y cychod rydych chi'n berchennog neu’n rhan-berchennog neu’n gapten arnynt. Rhaid i chi ateb pob cwestiwn ar y dudalen hon.




Ar ôl i chi ateb pob un o'r cwestiynau, cliciwch ar y botwm ‘Safio’ ac yna ar y botwm ‘Cadw a Dychwelyd’.

## Cymhwysedd: Wedi'i gwblhau

Bydd y sgrin Cymhwysedd yn dangos manylion y cwch rydych chi wedi eu rhoi i mewn.




Gellir addasu neu ddileu manylion cwch drwy ddefnyddio’r botymau hyn.
Ar ôl i chi wirio bod y manylion yn gywir, cliciwch ar y botwm ‘Nesaf’.


Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2023
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2023
ISBN: 978-1-83504-233-5

## Dewis Eitemau


Cyn dewis eich eitemau, cofiwch ddarllen y Rhestr o Eitemau Cymwys, sydd yn y canllaw o’r enw Iechyd a Diogelwch (Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru): rhestr o eitemau cymwys ar gyfer cyllid. Byddwch chi'n cael manylion, cost a sgôr pob eitem.

[https://www.llyw.cymru/iechyd-diogelwch-cynllun-y-mor-physgodfeydd-cymru-rhestr-o-eitemau-syn-gymwys-i-gael-cyllid](https://www.llyw.cymru/iechyd-diogelwch-cynllun-y-mor-physgodfeydd-cymru-rhestr-o-eitemau-syn-gymwys-i-gael-cyllid)

Cliciwch ar y botwm ‘Ychwanegu Eitem’ i weld dewislen o’r holl eitemau sydd ar gael.





Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2023
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2023
ISBN: 978-1-83504-233-5




Gallwch chi chwilio’r opsiynau sydd ar gael drwy sgrolio neu deipio eu henwau yn y bar chwilio ar frig y rhestr. Mae modd cael y Rhestr o Eitemau Cymwys yn y Iechyd a Diogelwch (Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru): Rhestr o eitemau cymwys am gyllid.

## Eitemau a Ddewiswyd

Drwy glicio ar eitem, byddwch chi'n mynd i'r sgrin ‘Eitemau a Ddewiswyd’ lle gallwch chi ddarllen y disgrifiad o'r eitem a chanfod y swm o arian grant y byddwch yn ei gael am bob eitem os yw eich cais yn llwyddiannus.





Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2023
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2023
ISBN: 978-1-83504-233-5

Pan fydd y manylion ar y dudalen hon yn gywir, cliciwch ar y botwm ‘Safio’, yna’r botwm ‘Cadw a Dychwelyd’ i ddychwelyd at y sgrin ‘Dewis Eitemau’.




Nawr, gallwch chi barhau i ychwanegu eitemau at eich cais. Gwnewch yn siŵr fod ‘Uchafswm Gwerth y Grant’ yn disgyn rhwng yr isafswm a’r uchafswm a ddisgrifir ar y sgrin.

Os yw nifer yr eitemau buddsoddi yn fwy na'r gwerth Grant Uchaf, sef £10,000, rhaid i chi leihau’r nifer neu gael gwared ar un neu fwy o eitemau.





Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2023
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2023
ISBN: 978-1-83504-233-5

Ar ôl i chi ddewis eich holl eitemau, cliciwch ar y botwm ‘Nesaf’.




## Manylion Eraill

Dyma dudalen y ‘Manylion Eraill’, sy’n gofyn rhagor o gwestiynau ichi am eich buddsoddiad.  Rhaid ateb pob cwestiwn ar y dudalen hon.





Ar ôl ateb yr holl gwestiynau ar y dudalen hon, cliciwch ar y botwm ‘Nesaf’.





Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2023
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2023
ISBN: 978-1-83504-233-5

## Tudalen Gyflwyno: Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb

Mae’r sgrin hon yn rhoi crynodeb o'r eitemau a ddewiswyd gennych a’r manylion a gyflwynwyd.




Mae hefyd yn tynnu sylw at gamgymeriadau sydd yn y ffurflen.





Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2023
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru



Hawlfraint y Goron © 2023


ISBN: 978-1-83504-233-5


Rhaid i chi gywiro pob camgymeriad cyn cyflwyno eich cais. Ar ôl i chi wirio’r crynodeb a chywiro unrhyw gamgymeriadau, cliciwch ar y botwm ‘Nesaf’.

## Cyflwyno: Datganiadau ac Ymrwymiadau

Mae’r dudalen hon yn cynnwys gwybodaeth y mae’n rhaid i chi ei darllen, a chyfrifoldebau ac ymrwymiadau y mae’n rhaid i chi eu derbyn cyn cyflwyno eich cais.




Rhaid i chi ddarllen y Datganiadau ac Ymrwymiadau a thicio’r blwch i gadarnhau eich bod chi wedi eu darllen a’ch bod yn cytuno â nhw.





Cliciwch ar y botwm ‘Nesaf’ ar ôl i chi wneud hynny.

## Tudalen Gyflwyno: Cyflwyno

I gyflwyno eich cais ar gyfer Iechyd a Diogelwch (Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru), cliciwch ar y botwm ‘Cyflwyno’.


Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2023
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2023
ISBN: 978-1-83504-233-5




Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2023
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2023
ISBN: 978-1-83504-233-5

## Cyflwyno’r Dogfennau

Ar ôl i chi eu cyflwyno, byddwch yn derbyn cadarnhad, a gallwch argraffu hwnnw ar gyfer eich cofnodion eich hun.





Cliciwch ar y botwm ‘Cyflwyno Dogfennau’ i uwchlwytho'r dogfennau angenrheidiol i gefnogi eich cais.

## Cyflwyno Dogfennau: Negeseuon


Byddwch yn cael eich cyfeirio at y sgrin ‘Negeseuon’ ar RPW Ar-lein.

Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2023
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2023
ISBN: 978-1-83504-233-5




Cliciwch ar y botwm ‘Creu Neges’.

Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2023
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2023
ISBN: 978-1-83504-233-5





Cliciwch ar y botwm 'Ychwanegu Ffeiliau', ac atodwch yr holl ddogfennau ategol angenrheidiol.

Mae rhestr o'r dogfennau sydd eu hangen, a'r mathau o ddogfennau sy'n dderbyniol, ar gael yn nodiadau cyfarwyddyd y cynllun:

[https://www.llyw.cymru/iechyd-diogelwch-cynllun-y-mor-physgodfeydd-cymru-canllawiau](https://www.llyw.cymru/iechyd-diogelwch-cynllun-y-mor-physgodfeydd-cymru-canllawiau)

Gwnewch yn siŵr fod eich dogfennau wedi cael eu huwchlwytho'n gywir, a rhowch deitl arnynt a neges yn esbonio'n glir pa ddogfennau rydych chi wedi'u huwchlwytho.

Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2023
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2023
ISBN: 978-1-83504-233-5




Cliciwch ar y botwm ‘Anfon’.

Pan fydd yr holl ddogfennau ategol wedi cael eu huwchlwytho, bydd eich cais yn gyflawn.

Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2023
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2023
ISBN: 978-1-83504-233-5

## Ar ôl cyflwyno cais yn llwyddiannus

Bydd crynodeb o'ch cais ar gyfer Iechyd a Diogelwch (Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru) yn cael ei ychwanegu at y dudalen 'Negeseuon' ar eich cyfrif RPW Ar-lein dan y teitl 'Dogfennau a ddaeth i law i RPW'. Cofiwch wirio'r wybodaeth yn drylwyr. Os oes unrhyw wybodaeth yn anghywir, atebwch y Neges yn nodi eich pryderon. Dylech chi wneud hyn cyn gynted ag y byddwch yn darganfod unrhyw wybodaeth anghywir.

Os ydych chi'n cael problemau neu os ydych chi'n methu agor ein gwefan, cysylltwch â Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

**Mae tri chanlyniad posibl o werthuso ceisiadau:**

1. Nid yw eich cais yn gymwys ar gyfer y grant. Bydd llythyr yn cael ei anfon atoch yn nodi'r rhesymau pam y gwrthodwyd eich cais.
2. Mae eich cais yn gymwys i'w ystyried ond nid yw wedi cael ei gymeradwyo ar gyfer dyfarniad. Cewch wybod y rhesymau pam nad oedd eich cais yn llwyddiannus. Gallwch wneud cais eto o fewn ffenestr wahanol **ond dim ond os nad ydych wedi prynu'r eitemau y gwnaed cais amdanynt.**
3. Mae eich cais yn gymwys ac wedi'i gymeradwyo ar gyfer cyllid. Bydd contract yn cael ei roi i chi ar-lein yn nodi telerau ac amodau'r dyfarniad. Gofynnir i chi ei dderbyn fel cytundeb eich bod yn derbyn y telerau a'r amodau. Bydd y contract hefyd yn rhoi'r awdurdod i chi brynu'r eitemau a nodir yn eich contract.

Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2023
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2023
ISBN: 978-1-83504-233-5